# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Morfa Newydd**

**Cartref Gofal Morfa Newydd**
**Heol Mostyn, Maes-glas**
**Treffynnon**
**CH8 9DN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Morfa Newydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | MN OPCO LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Ionawr 2020 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg.  Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio’r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio’r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yno ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y staff gofal. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r staff gofal yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gefnogi'r bobl a'u cadw'n ddiogel a gall y bobl gael cymorth gan arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ôl yr angen. Mae gan y darparwr gwasanaeth systemau llywodraethu da ar waith i oruchwylio'r gwaith o reoli'r cartref, a dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi'n dda. Mae angen rhywfaint o welliant o ran storio meddyginiaethau ac rydym wedi argymell hwn fel maes i'w wella. Byddwn yn edrych ar hyn eto yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Gwelsom fod ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol megis lluniau, gwrthrychau a ffotograffau a oedd yn bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dewis ble i dreulio eu hamser ac yn hoffi'r opsiynau bwydlen a gynigir. Er nad oes cydlynydd gweithgareddau ar hyn o bryd, gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu unigol gyda chymorth y staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau ymweliad diweddar â'r cartref gan unigolyn â'i alpacaod anwes, ac roedd bwrdd lluniau yn y cyntedd yn dangos lluniau o bawb yn mwynhau te prynhawn ac adloniant fel rhan o ddathliadau Jiwbilî diweddar y Frenhines. Dywedodd y rheolwr wrthym eu bod wedi cael ymweliad gan ganwr/cantores opera yn ddiweddar a bod y bobl wedi mwynhau hyn hefyd. Mae siop fach sy'n darparu detholiad o losin, siocled a byrbrydau, neu bethau ymolchi i'r bobl eu prynu yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir eisoes. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyn yn boblogaidd.
Gall y bobl fod yn sicr bod eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol yn cael eu cynnal, eu hybu a'u diogelu. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan ddigon o staff gofal sy'n adnabod anghenion gofal a chymorth y bobl yn dda. Mae cynlluniau personol ar waith ac maent yn rhoi manylion am ddewisiadau gofal ac anghenion y bobl. Mae'r staff gofal yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl. Mae gan bobl fynediad at gefnogaeth a chyngor gan weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ôl yr angen, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, deietegwyr a meddygon teulu.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys iechyd a diogelwch, amddiffyn rhag tân, a diogelu. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y cartref ac maent yn hyderus i fynd ag unrhyw bryderon sydd ganddynt at y rheolwyr.

Anogir y bobl i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch â'i gilydd a'r staff gofal yn y cartref. Gwelsom y staff gofal a'r preswylwyr yn chwerthin ac yn cellwair gyda'i gilydd. Mae'r bobl hefyd yn cael eu cefnogi i gynnal perthynas â ffrindiau ac anwyliaid. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael ymwelwyr a'u bod yn cael eu cefnogi i ddefnyddio FaceTime i siarad ag unrhyw un nad yw'n gallu ymweld â nhw wyneb yn wyneb.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion gan amlaf. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth a'r rheolwyr systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch perthnasol yn cael eu gwneud ar gyfer offer a chyfleusterau yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau diogelwch trydan a nwy, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio'r adeiladau yn gyffredinol. Darperir offer arbenigol i ddiwallu anghenion y bobl. Nid yw gwaith wedi dechrau eto ar y cynllun i adnewyddu ochr gofal preswyl y Maenordy yn y gwasanaeth; mae'r bobl a symudodd draw i'r prif adeilad ar y safle'r llynedd, yn barod i'r gwaith ddechrau, yn awyddus i'w weld yn cael ei orffen er mwyn iddynt allu dychwelyd. Fodd bynnag, dywedodd y bobl wrthyf eu bod yn dal yn hapus yn byw yn y prif adeilad ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yno.

## Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu hasesu gan y rheolwyr cyn mynd i mewn i'r cartref i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu eu diwallu. Mae cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y bobl eu hunain, ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cynlluniau personol yn cynnwys manylion da am hanes bywyd y bobl, sy'n helpu'r staff gofal i'w hadnabod yn well. Mae ganddynt hefyd fanylion da am hoffterau'r bobl o ran bwyd, trefn ddyddiol, a beth maent yn hoffi ei wisgo.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod digon o staff gofal yn y cartref sydd wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom fod ganddynt agwedd amyneddgar a gofalgar yn eu dull o gefnogi'r bobl. Mae'r staff gofal yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r staff gofal a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn teimlo ei fod wedi datblygu cyfeillgarwch ystyrlon gyda'r staff gofal ers symud i mewn a'i fod yn teimlo fel cartref.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi cyflwyno system electronig newydd ar gyfer cofnodi a chynllunio gofal yn ddiweddar. Dywedodd y rheolwr fod yr holl staff yn cael hyfforddiant llawn ar sut i'w defnyddio a'u bod yn dod i arfer â'i defnyddio. Mae rhai agweddau ar gofnodi gofal dyddiol yn dal i gael eu cofnodi ar bapur ar hyn o bryd, gan nad yw'r system yn gwbl weithredol ar gyfer yr holl gofnodion darparu gofal. Am y rheswm hwn, nid ydym wedi gallu ystyried ei defnydd yn llawn yn ystod yr arolygiad hwn ond byddwn yn gwneud hynny yn yr arolygiad arferol nesaf. Gwelsom rai anghysondebau rhwng gwybodaeth a gofnodwyd ar gofnodion papur y bobl a'u cofnodion electronig. Buom yn trafod hyn gyda'r rheolwyr, a chytunwyd y rhoddir sylw i hyn. Byddwn yn ailedrych ar hyn yn ystod yr arolygiad arferol nesaf unwaith y bydd y system electronig newydd yn cael ei defnyddio'n llawn.

Mae'r gwaith o reoli meddyginiaethau yn ddigonol; fodd bynnag, gwelsom fod problemau gyda rhywfaint o'r storfa a ddarperir ar gyfer meddyginiaethau ac eliau. Yn ddiweddar, mae'r uwch-reolwyr wedi cymryd camau i ddatrys y materion mewn ymgynghoriad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chymerwyd camau pellach yn ystod ein hymweliad yn dilyn trafodaethau â'r arolygydd. Er bod y risg i'r bobl yn isel, mae angen i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau pellach o hyd i sicrhau datrysiad cyflawn i'r broblem. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae prif adeilad y cartref yn groesawgar ac yn gyfforddus, gydag ystafell fwyta / lolfa fawr sy'n olau ac yn heulog. Mae'r tiroedd yn cynnwys coed mawr, cysgodol ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymdeithasu yn y lolfa ac edrych allan dros y dreif blaen a'r patio.

Mae'r cartref yn ddiogel a chanddo system mynediad cod allwedd a mewngofnodi ar gyfer ymwelwyr. Mae systemau a phrosesau rheoli ac atal heintiau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel, gan gynnwys profion COVID-19 ar gyfer ymwelwyr a mynediad at gyfarpar diogelu personol ar gyfer staff ac ymwelwyr. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus, a gwelwyd bod mannau cyffwrdd uchel ac offer a ddefnyddir gan y bobl yn cael eu glanhau'n ddwfn.

Mae systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod yr adeilad a'r tir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ond mae angen rhywfaint o fuddsoddiad o hyd gan ddarparwr y gwasanaeth. Gwelsom fod mannau lle gellid diweddaru'r addurniadau, ond gwelsom hefyd fuddsoddiad yn cael ei wneud i ddiweddaru cyfleusterau'r gegin yn dilyn ymweliad proffesiynol diweddar. Ar hyn o bryd, mae ardal y Maenordy yn y cartref yn aros i'r gwaith o'i hadnewyddu ddechrau; dywedodd y rheolwr wrthym fod hyn wedi'i ohirio ers y llynedd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y gwiriadau a gwaith gwasanaethu gofynnol yn gyfredol ar gyfer yr holl offer yn y cartref, gan gynnwys gwiriadau iechyd a diogelwch ac ardystiadau ar gyfer y cyflenwadau trydan, nwy a dŵr. Mae amserlen cynnal a chadw ac mae aelodau penodol o staff i ofalu am waith cynnal a chadw ac atgyweirio. Gwelsom fod cynlluniau gweithredu cynnal a chadw ar waith gyda chyfrifoldebau dirprwyedig a llinellau amser. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, diogelwch tân, ac atal a rheoli heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau a phrosesau ar waith ar gyfer y gwaith o lywodraethu a goruchwylio rheolaeth y cartref. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bob tri mis ac yn cwblhau'r adroddiadau chwarterol a sicrwydd ansawdd y mae ei rôl yn gofyn amdanynt. Mae'r rheolwr cydymffurfio yn ymweld yn fisol ac yn cefnogi'r rheolwr a'r staff nyrsio. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan y darparwr gwasanaeth a'i fod yn gallu cael gafael ar y cyflenwadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl.

Mae cofnodion yn dangos bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn ystod o bynciau sy'n diwallu anghenion y bobl ac yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'r rheolwyr. Dywedodd yr aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r hyfforddiant a gynigir a'u bod yn cael cymorth da gyda hyn gan y rheolwyr. Dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr ar y cyfan a'u bod yn teimlo'n hyderus i fynd atynt gydag unrhyw bryderon neu broblemau.

Gall y bobl fod yn sicr bod prosesau ar waith i sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn ddiogel i weithio yn y cartref. Mae'r cofnodion a welwyd yn dangos bod yr holl staff newydd yn cael gwiriadau trylwyr cyn dechrau cyflogaeth ac yn cwblhau proses sefydlu drylwyr; mae hyn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â'r staff mwy profiadol i roi amser iddynt ddod i adnabod y bobl. Mae'r holl staff yn cael diweddariadau rheolaidd i'w gwiriadau cyflogaeth i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i weithio gyda phobl agored i niwed.

Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn dda. Gwelsom amserlenni archwilio cyffredinol a chlinigol a thystiolaeth o ddadansoddiad o ganlyniadau a chynlluniau gweithredu i ddatrys materion a nodwyd.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 58 | Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer storio meddyginiaethau yn bodloni'n llawn bolisïau darparwr y gwasanaeth a chanllawiau cenedlaethol ar storio'n ddiogel. Mae camau a gymerwyd eisoes gan y rheolwyr i gadw pobl yn ddiogel wedi lleihau'r potensial ar gyfer risg, ond mae achos y broblem yn parhau. Disgwyliwn i ddarparwr y gwasanaeth weithredu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Do_ Not_Delete